

Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Bryn Eglwys, Gwynedd



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust



Coed ywen ar ochr y llwybr at Eglwys y Santes Ann.

Gwerthusiad Ardal Gadwraeth Bryn Eglwys, Gwynedd

Prosiect Rhif G2675

Rhif yr Adroddiad 1625

Paratowyd ar gyfer Cyngor Gwynedd

Mawrth 2022

Ysgrifennwyd gan Andrew Davidson a Joanna Davidson

Cyhoeddwyd gan
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd LL57 2RT

Cadeirydd/ Chair — David Elis-Williams MA(Oxon), MSc, CPFA
Prif Archaeolegydd/ Chief Archaeologist — Andrew Davidson, BA, MCIfA, FSA

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn Gwmni Cyfyngedig (Rhif Cof. 1180515) ac yn Elusen (Rhif Cof. 508849)
Gwynedd Archaeological Trust is both a Limited Company (Reg No. 1180515) and a Charity (Reg No. 508849)

Cynnwys

1 Cyflwyniad	6
1.2 Cydnabyddiaeth	
2 Hanes cefndirol	8
3 Cymeriad yr anheddle	8
3.1 Lleoliad	
3.2 Cymeriad	
3.3 Dynodiadau	
4 Disgrifiad o'r Ardal Gadwraeth	9
5 Gwelliannau a argymhellir	11
6 Newidiadau a argymhellir i'r Ardal Gadwraeth	12
7 Ffynonellau	12

I. Cyflwyniad

I.1 Cyflwyniad Cyffredinol

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau gwerthusiad yn Ardal Gadwraeth Bryn Eglwys, i'r de-orllewin o Fethesda. Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG) sydd wedi gwneud y gwerthusiad ar ran Cyngor Gwynedd.

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhedredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi dy-letswydd ar yr holl awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu pa ardaloedd fyddai'n ddymunol eu cadw a'u gwella er mwyn eu dynodi fel ardaloedd cadwraeth. Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan y dylai awdurdodau lleol adolygu eu gweithgareddau yn y gorffennol yn yr ardal

hon gan ychwanegu mwy o gadwraeth ble bo'n briodol.

Mae'r gwerthusiad yn arfarnu'r ardal gadwraeth bresennol, gan ddarparu trosolwg o'i hanes, ei phensaerniaeth a'i chyflwr, ac yn awgrymu argymhellion priodol.

I.2 Cydnabyddiaeth

Eryl Williams a Hannah Joyce, Cyngor Gwynedd, gychwynnodd y prosiect, gan ddarparu cymorth hael a gwybodaeth i helpu gyda'r gwaith. Bu Dr John Llywelyn Williams hefyd yn garedig iawn yn rhoi cymorth a chynghor yn ystod y prosiect. Mae'r anheddle bychan hwn yn sefyll rhwng

1


Rhifau 1 a 2 Bryn Eglwys.



1

2
Map o'r Ardal Gadwraeth

3
Golygfa o'r awyr o'r
eglwys a'r pentref.
(Hawlfraint Map data
2021 Google).



2. Hanes cefndirol

Bethesda a Mynydd Llandygai. Mae ei enw i'w weld ar fap OS 1900 fel Bryn Eglwys, gan ei fod yn cynnwys hen eglwys y Santes Ann.

Ymddengys nad oes fawr ddim o safleoedd archeolegol yng nghyffiniau Bryn Eglwys. Byddem wedi disgwyl gweld arwyddion o amaethyddiaeth gynnar ar y llethrau cyfagos, ond nid oes unrhyw beth wedi'i gofnodi.

Er bod tyddynnod fferm ar wasgar yn y cyffiniau, mae mwyafrif y tai yn yr ardal ar ffurf aneddeleoedd diwydiannol bychan, a dim ond llond llaw o dai ynddynt. Ysgrifennodd Richard Fenton yn gynnar yn y 19eg ganrif 'took a ride to see the Mill [sef Felin Fawr] for sawing the blocks of slate for chimney pieces, tomb stones, side boards cyphering slates etc., which is a wonderful piece of machinery, and carried on with great success by Mr Worthington. Hence to the beautiful chapel built, consecrated, and endowed by Lady Penrhyn for the use of the people employed in the slate quarries, forming a vast population scattered over the sides of the mountain in neat cottages built for that purpose'. Yr eglwys y mae'n sôn amdani yw'r un oedd yno cyn y Santes Ann, i'r de o'r felin – fe'i hadeiladwyd yn 1812-13, ond efallai'n wir y bu eglwys arall yno cyn hynny hefyd. Fe gladdwyd yr eglwys o dan y tomenni llechi yng nghanol y 19eg ganrif.

Mae'r disgrifiad gan Fenton yn awgrymu y cafodd nifer o'r bythynnod cyfagos, yn enwedig y rheini sydd bellach o dan y tomenni llechi, eu hadeiladu yn gynnar yn y 19eg ganrif, ar yr un pryd â'r hen eglwys St Ann a gladdwyd. Fodd bynnag, mae'r bythynnod sydd ymhellach draw tua'r gorllewin islaw'r tomenni i weld yn rhai canol y 19eg ganrif – o bosib yn gyfnewid am yr aneddeleoedd a gladdwyd. Maent hefyd yn cyd-fynd yn fras ag eglwys ddiweddarach y Santes Ann.

Mae anheddle Bryn Eglwys yn sefyll i'r gorllewin o'r eglwys, fel rhan o gymuned fechan a gynlluniwyd ar gyfer gweithwyr y chwarel. Mae'r bythynnod yn nodweddiadol o ymdrechion teg Edward Douglas-Pennant i wella Stad y Penrhyn – ef oedd yr olynydd i'r stad yn 1840. Ymddengys eu bod ychydig yn gynharach na'r eglwys, fe wnaeth y stad ailadeiladu'r eglwys yn 1865 ar ôl i'r eglwys

wreiddiol o 1813 gael ei chladdu gan y gweithfeydd newydd yn y chwarel. Fe godwyd yr eglwys yn y fan hon fel ei

3. Cymeriad yr anheddle

3.1 Lleoliad

Saif anheddle Bryn Eglwys ar lethrau dwyreiniol y brynau sy'n codi o Ddyffryn Ogwen. Mae Chwarel Lechi y Penrhyn i'r de-ddwyrain, gyda Gwaith Llechi Felin Fawr yn y canol rhwng y ddau. Mae anheddle bychan Cil-geraint i'w weld rhwng y gwaith llechi a Bryn Eglwys, tra bod Mynydd Llandygai, sef y pentref diwydiannol a gynlluniwyd, yn sefyll ar weundir uwch tua'r de-orllewin. Daw'r tir yn weundir agored fymryn uwchlaw'r anheddle, ac mae system gaeau mwy cynhyrchiol islaw yn arwain tuag at afon Ogwen. Saif Bethesda ar ochr bellaf yr afon. Mae'r ochr gymharol gysgodol, sy'n cael ei gwarchod rhag y prif wyntoedd o'r gorllewin, wedi golygu bod coed wedi gallu tyfu yn ardal yr eglwys.

Mae lôn droellog Bryn Geraint yn arwain i fyny'r allt, heibio'r eglwys, trwy'r anheddle ac ymlaen i'r gweundir agored, gan roi'r argraff gychwynnol o eglwys dawel, gysgodol yng nghanol coetir aeddfed, gyda bythynnod bach del tu draw. Yn anffodus, mae natur adfeiliedig yr eglwys yn difetha'r argraff honno.

3.2 Cymeriad

Mae'r anheddle bychan hwn ar ochr y ffordd yn sefyll yn ymyl eglwys y Santes Ann. Mae ei enw (Bryn Eglwys) yn awgrymu, hyd yn oed os oedd y bythynnod yno cyn yr eglwys, ei bod wastad wedi bod yn fwrriad ailadeiladu'r eglwys yma.

Mae'r ffordd yn ymestyn o amgylch ochr ogleddol yr eglwys, wedyn yn sythu, cyn troi'n raddol i'r chwith. Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys yr eglwys a'r bythynnod sy'n rhes ar hyd y gogledd a'r de o'r rhan syth o'r lôn. Mae'r bythynnod deheuol, oll yn rhes-tredig, yn rhai un-llawr gyda llofft, simdde ar y pen a tho llechi. Yn y ddau bâr cyntaf mae drysau canolog gyda ffenestr fertigol tri cwarel ar un ochr, a ffenestr dau gwarel ar yr ochr arall. Mae carreg fwa i'r drysau a'r ffenestri, ac mae sil garreg i'r ffenestri hefyd. Mae'r gerddi blaen wedi'u cau i mewn gan waliau cerrig garw tlws, gyda phen-llechi arnynt. Mae'r tŷ pen 3-uned ychydig yn wahanol yn ei arddull, gyda linteli hir o lechen,

4
Ochr ogleddol
eglwys y Santes
Ann yn dangos
y llystyfiant wedi
tyfu at yr eglwys a
fffenestri wedi malu.

5
Ffenestr wedi malu.

a ffenestri 3-cwael ar y llawr gwaेलod a
fffenestri 2-gwael yn y talcenni blaen.

3.3 Dynodiadau

Mae'r rhes ddeheuol o fythynnod tu draw i'r
eglwys (Rhifau 1 - 7) oll yn rhai Rhestredig
Gradd II. Nid yw'r eglwys yn rhestredig.
Mae'r Ardal Gadwraeth yn sefyll oddi mewn
i'r Safle Treftadaeth y Byd ehangach, a
hefyd oddi mewn i Dirwedd Hanesyddol
Arfon.

4.0 Ardal Gadwraeth


Wrth ddod i'r pentref o'r dwyrain, mae'r Ardal
Gadwraeth yn cynnwys Eglwys y Santes
Ann i'r de o'r lôn – gellir gweld y fynwent yng
nghanol y coed sy'n amgylchynu'r eglwys. I'r
gorllewin o'r fynwent, ar yr un ochr i'r ffordd,
mae saith bwthyn rhestredig, ac ar yr ochr
ogleddol mae pâr o fythynnod nad ydynt yn
rhestredig. Mae un mewn cyflwr eithriadol
o dda, ac mae un wedi cael ei addasu rhyw
fymryn. Tu draw i'r rhain mae pâr arall o
fythynnod, ond bu addasiadau ac estynia-
dau helaeth i'r rhain. Heb eu cynnwys yn
yr Ardal Gadwraeth mae'r ddwy fynwent yn
is i lawr, tmae'r uchaf o'r ddwy i'w gweld ar
y Map Arolwg Ordnans o 1900 ac felly fe'i



crëwyd yn fuan ar ôl adeiladu'r eglwys.

Cafodd eglwys y Santes Ann ei dylunio gan
Goronwy Owen, pensaer Stad y Penrhyn, yn
1865 er mwyn amnewid yr hen eglwys o'r un
enw oedd wedi cael ei llyncu gan y tomenni
llechi. Mae'r eglwys yn cynnwys corff a

changell gydag ystlysau, porth deheuol
a festri i'r gogledd. Mae'r tŵr gogleddol
dau-gam ar ffurf meindwr broch tal. Mae'r
deunyddiau a ddefnyddiwyd yn cynnwys
carreg rwbel gyda charreg galch i addurno.
Mae'r eglwys mewn cyflwr peryglus, mae'r
meindwr yn cael ei gynnal gan goeden hae-
arn sy'n rhydu, ac mae mewn perygl enbyd
o gwmpo unrhyw bryd. Mae'r ffenestri wedi
malu ac yn sigo, ac mae sbwriel yn blocio'r
pyrth. Mae'r pyst giât mewn cyflwr gwael,
ac yn arwain i faes parcio cyfyngedig gyda
lôn gerbydau yn amgylchynu'r eglwys, gyda
mynediad i'r mynwentydd. Mae mieri trw-
chus ar hyd y waliau ac mae'r prysgwydd yn
gordyfu. Mae'r ardal ehangach o gwmpas yr
eglwys yn eithaf dyrsg ac yn drwch o goed
sy'n aeddfedu. Mae'r fynwent sy'n union tu
mewn i'r giatiau ac i'r chwith wedi cael ei
chynnal a'i chadw, ac mae'n fan pwysig i'r
gymuned – mae blodau'n bresennol yno.
Bu ymdrech i reoli'r coed ywen ar y ffin
ddwyreiniol, ond dim ond i'w hatal rhag tyfu



i mewn i'r caeau cyfagos. Mae'r eglwys
mewn perchnogaeth breifat, heb ei rhestru
ac nid oes dyfodol iddi. Delweddau 4, 5

Uwchlaw'r eglwys, i'r gogledd-orllewin mae
dau bâr ac un bloc o dri o fythynnod rhes-
tredig mewn arddull a ddisgrifir fel adfywiad
gwerinol ('vernacular revival style'). Mae'r
ddau bâr o fythynnod yn rhai un-llawr, dwy
ystafell gyda llofft. Mae'r waliau yn haenau
o flociau rwbel wedi'u naddu, a'r toeau o
lechi. Mae gan bob bwythyn ffenestri 2
neu 3 cwarel, gyda silliau carreg a charreg
fwa, bob ochr i ddrws canolog. Mae corn
simdde ar bob pen, a chorn simdde mwy yn
y canol. Mae waliau isel o amgylch gerddi'r

bythynnod hyn, sy'n ffinio â'r ffordd, ac mae blociau llechi fertigol ar ben y waliau. Mae pyst giât sgwâr yn nodi'r fynedfa i'r gerddi, gyda giatiau haearn taclus wedi'u peintio'n ddu. Mae'r ffenestri wedi eu peintio'n ddu yn gyffredinol, gyda chiliau gwyn. Mae hyn hefyd yn wir am ddau o'r drysau, ac mae'r ddau ddrws arall yn bren.

Mae'r plotiau blaen yn rhifau 1-3 dal yn



erddi, ond mae llechi mân yn rhif 4 erbyn hyn, a wal yr ardd wedi'i chwtogi er mwyn gwneud lle i ddreif palmantog a garej bren. Mae gwaith datblygu helaeth wedi digwydd tu ôl i Rif 3 a Rhif 4. (Delweddau 1, 6).

Mae'r grŵp o dri gyda'i gilydd mewn siâp 'H', gyda thalcenni blaen yn ymestyn allan o boptu'r rhan ganol is. Mae'r waliau yn haenau bras o gerrig rwbwl, gyda linteli llechen. To llechi sydd yno, gyda'r ymylon yn hongian drosodd. Mae'r blaen cymesur ar ffurf baeau 1:3:1 – ar y talcenni mae ffenestri 3 cwarel ar y llawr daear, a ffenestri 2 gwarel uwchben. Yn y bwthyn canol mae mynedfa ganolog gyda ffenestri 3 cwarel bob ochr iddi.

Mae'r bloc wedi'i osod yn ôl o'r ffordd, gyda ffenestri wedi'u peintio'n wyn a'r ciliau heb eu peintio. Ymddengys bod y fynedfa i gerbydau rhwng rhifau 4 a 5 yn gwasanaethu 5, 6 a 7, ac mae strïbed o



goetir yn gwarchod yr anheddle i'r gorllewin. Dim ond un drws sy'n weladwy o'r ffordd, sef y drws i'r bwthyn un-llawr yn y canol (Rhif 6). Drws gwyrdd ydyw gyda phaneli gwydr. Mae'r ardd flaen i'r bwthyn hwn yn fyrrach, gan ddarparu iard fechan y gellir ei defnyddio fel man parcio. Delwedd 7.

Ar ochr arall y ffordd a mymryn i fyny'r lôn, ar y tro yn y lôn, mae pâr arall o fythynnod yn yr un arddull â Rhifau 1 - 4. Mae'r isaf o'r ddau fwthyn mewn cyflwr cymharol wreiddiol gyda phorth agored bychan (ychwanegiad mwy diweddar mae'n debyg, ond yn cydfynd â'r bwthyn gwreiddiol). Mae'r ardd flaen dal yn cynnwys wal, y pyst giât a'r giât ei



hun. Mae'r bwthyn uwch i fyny, "The Milton", yn cynnwys ffenestri latis UPVC anaddas, a phorth sy'n rhy fawr. Mae gosodiad yr ardd flaen dal yr un fath, ond mae'r bwthyn wedi'i ymestyn i'r ochr i greu estyniad bychan to fflat. Adeiladwyd garej fawr i fyny'r allt gyda lle parcio i'r tu blaen. Delwedd 8

Mae'r adeilad arall o fewn yr Ardal Gadwraeth gyferbyn â rhifau 1-2. Ar adeg yr arolwg hwn roedd yr adeilad yma wrthi'n cael ei ailddatblygu, ond ymddengys ei fod wedi cychwyn fel dau fwthyn, gydag adeiladau fferm yn y cefn. Mae ganddo gorn simdde canolog a tho llechi. Mae dwy asgell, rhai deulawr, yn ymestyn ymlaen gyda'r hanner uchaf yn llechi, a'r hanner isaf yn gerrig mawr mewn haenau bras. Mae asgell fawr, newydd yn y cefn sy'n weladwy o'r ffordd tu ôl i'r asgell dde. Mae'r ardd flaen yn debyg i'r rhai gyferbyn, ond mae ar allt felly mae'r waliau blaen yn cadw'r pridd tu ôl. Yn ei ffurf bresennol mae graddfa'r tŷ i weld yn angyhydawns â'r Ardal Gadwraeth. Delwedd 9.

6
Rhif 2 Bryn
Eglwys

7
Rhifau 5 i 7,
Bryn Eglwys

8
Rhifau 10 ac 11 Bryn
Eglwys.

Mae'r ardd flaen wedi ei throsi yn lle parcio, gyda ffenestri newydd annodweddiadol wedi eu gosod.



5.0 Gwelliannau a argymhellir

Mewn ardaloedd cadwraeth nid yw nifer o'r trigolion yn ymwybodol o gwbl eu bod yn byw yn y fath ardal. Yn aml nid oes fawr neu ddim gohebiaeth gyda thrigolion ar ôl sefydlu'r ardaloedd, ac yn aml ni chaiff gohebiaeth gynnar ei phasio ymlaen i'r perchnogion mwy diweddar. Mae hyn wedi cyfrannu at estyniadau anffodus, ffenestri a drysau amhriodol a diffyg dealltwriaeth o gymeriad hanfodol yr ardal. Felly, mae cynnwys y gymuned yn hollbwysig i lwyddiant ardal gadwraeth. Dylai perchnogion gael gwybod am y canllawiau diweddaraf sy'n awgrymu beth sy'n dderbyniol mewn ardal gadwraeth, yn enwedig ar gyfer drysau a ffenestri. Mewn sawl achos cafodd y ffenestri eu haddasu cyn i'r ardal gael ei dynodi, ond ers hynny mae llawer o'r ffenestri hyn wedi cael eu newid, yn aml sawl gwaith. Mae hwn yn gyfle i dywys perchnogion eiddo i fathau amgen, mwy derbyniol. Mae mwyafrif y ffenestri bellach yn rhai plastig ond mae rhai yn llai ymwithiol nag eraill, ac mae'r rhai sydd o'r un maint a threfniant â'r ffenestri gwreiddiol yn gymharol dderbyniol, ond nid yw mwyafrif y perchnogion yn ymwybodol o arwyddocâd eu dewisiadau.

Mae'r rhan fwyaf o'r tai yn yr Ardal Gadwraeth hon wedi'u rhestru ac felly cânt eu

gwarchod ymhellach, ond nid y tai i'r dwyrain o'r ffordd. Daeth dau ohonynt yn fythynnod gwyliau yn ddiweddar, yn barod i'w datblygu. Mae'r pâr islaw eisoes wedi cael eu hymestyn mewn modd nad yw'n gweddu i'r ardal. Byddai diweddariadau a chanllawiau rheolaidd yn gymorth i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o statws ac arwyddocâd yr ardal.

Dylai'r fynwent ei hun, hyd yn oed os yw'r eglwys yn parhau i ddirywio, barhau i fod yn rhan o'r Ardal Gadwraeth gan ei bod yn fanteisiol iawn i fywyd gwylt. Dylid awgrymu mesurau rheoli positif ar cyfer y coed ywen ar ffin ddwyreiniol y fynwent. Mae'r rheini sydd ar y terfyn â'r ffordd yn dal i gael eu rheoli gan y plwyf, ond nid yw'r gweddill dan unrhyw reolaeth ac maent yn achosi drwgdeimlad.

Dylid annog trigolion i gadw eu gerddi blaen, gyda giatiau priodol. Mae'r pwysau i ddarparu lle parcio i amryw o geir yn golygu bod perchnogion tai yn awyddus i gynyddu maint y mynedfeydd, gan dynnu waliau a phileri. Dylid erfyn ar bobl i beidio gwneud hyn, gan ei fod yn cael effaith andwyol ar y strydlyn.

6.0 Newidiadau a argymhellir i'r Ardal-loedd Cadwraeth

Mae cynnwys y ddwy fynwent sy'n is i lawr, of fewn yr ardal gadwraeth, yn gam rhesymegol a dylid rhoi ystyriaeth iddo. Cânt eu rheoli'n dda, ac mae'r ddwy yn amlwg yn bwysig i'r gymuned. Mae'r uchaf o'r ddwy fynwent, sydd agosaf at yr eglwys, wedi ei sefydlu ers o leiaf 1900, tra cafodd yr estyniad mwy sydd ymhellach draw o'r eglwys ei sefydlu'n ddiweddarach. Delwedd 10

7.0 Ffynonellau w

Cadw, nd *Disgrifiadau o Adeiladau Rhestredig*

Fisher, J., 1917 *Tours in Wales (1804-1818)* by Richard Fenton.

Haslam, R., Orbach, J., Voelcher, A., 2009 *The Buildings of Wales: Gwynedd*.

Hayman, R., 2017 *Bethesda. Astudiaeth o Gymeriad Trefol ar gyfer Cyngor Gwynedd*, 2017

Hughes, H., and North, H. L., 1924 *The Old Churches of Snowdonia*

John Ll. Williams and Lowri W. Williams, Hanes Dyffryn Ogwen Website <https://hanesdyffrynogwen.wordpress.com/>

10

Byddai'r mynwentydd is i lawr yn eglwys y Santes Ann yn gwneud estyniad priodol i'r Ardal Gadwraeth



10